



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Cydweithio Sefydliadol

Cynllunio a Darparu Gwasanaeth Cyfieithu ar y cyd er mwyn lleihau costau

Dyddiad: Gorffennaf 2017

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn darparu gwasanaethau cyfieithu ysgrifenedig ar gyfer cynghorau Dinbych, Wrecsam a'r Fflint yn ogystal â Chartrefi Conwy.

TREFNIADAU CYTUNDEBOL

Mae gan y cynghorau contract tair blynedd gyda Chyngor Conwy, ac mae'r cyngor yn cyfarfod gyda phob sefydliad o leiaf unwaith y flwyddyn i drafod y gwasanaeth.

Mae pob cyngor wedi cytuno ar nifer penodol o eiriau i'w cyfieithu, yn seiliedig ar ddata blynyddoedd cynt, gyda rhyddid o 10% naill ochr.

Mae'r trefniadau gweinyddol yn wahanol ym mhob sefydliad. Mae Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn defnyddio system Proactis sy'n caniatáu i aelodau o staff archebu gwaith cyfieithu eu hunain. Tîm gweinyddol sy'n trefnu'r gwaith cyfieithu ar ran aelodau eraill o staff yng Nghyngor Sir y Fflint.

ARBEDION ARIANNOL

Mae cyfraddau ar gyfer y gwaith cyfieithu yn is na'r hyn a dalwyd ynghynt.

Nodwyd gan un cyngor ei fod yn gweld arbedion o **£20,000** yn y flwyddyn gyntaf o weithredu'r drefn hon er i nifer o eiriau a gyfieithwyd godi o'r flwyddyn flaenorol.

ANSAWDD A CHYSONDEB

Mae'r gwasanaeth yn sicrhau cysondeb o ran ansawdd a chyflymder dychwelyd y gwaith, sydd wedi golygu lleihad yn y nifer o gwynion.

Gan fod y gwasanaeth cyfieithu yn cynnig cyfieithu a phrawf ddarllen mae pob gwasanaeth o fewn y cynghorau yn defnyddio'r un grŵp o gyfieithwyr sydd yn rhoi mwy o gysondeb o ran cywirdeb a mwy o ymlyniad i arddull gorfforaethol.

Mae'r mathau o ddogfennau a gyfieithwyd yn amrywio'n helaeth, o lythyron lled anffurfiol i adroddiadau cyngor a dogfennau technegol. Trwy ddefnyddio'r gwasanaeth cyfieithu, gellir sicrhau cysondeb o ran arddull ac ansawdd gan fod yna ddealltwriaeth o derminoleg llywodraeth leol.

Mae'r gwasanaeth yn gwneud defnydd o gof cyfieithu sy'n golygu nad oes angen cyfieithu testun sydd eisoes wedi ei gyfieithu. Mae hyn yn arwain at gysondeb mewn arddull a themau ac yn golygu y gellir cyfieithu mwy o eiriau mewn llai o amser.

SEFYDLOGRUYDD

Mae'r gwasanaeth bellwch mewn gryn ers dros dair blynedd a thros yr amser hwnnw bu gwelliant pendant yn y gwaith o gydlynu ceisiadau i'w cyfieithu ac felly ceir gwasanaeth llawer mwy cyson.

Mae'r gwasanaeth yn blaenoriaethu gwaith cyfieithu. Er enghraifft, blaenoriaethir dogfennau i'w cyhoeddi i'r wasg a dogfennau pwyllgorau . Mae terfynau amser mewn grym ar gyfer pob sir ac wrth reswm po fwyaf o eiriau sy'n cael ei anfon po fwyaf o amser sydd ei angen i gwblhau'r gwaith.

SUT GALL HYN WEITHIO I SEFYDLIADAU ERAILL?

Gallai sefydliadau sydd yn yr un sector elwa o sefydlu contract cyfieithu ar y cyd â sefydliadau eraill yn y maes neu bennu un ganolfan i fod yn gyfrifol am waith cyfieithu ar gyfer maes penodol. Gallai cytundeb neu drefniant o'r math hwn:

- Arwain at arbedion ariannol trwy gomisiynu gwaith cyfieithu ar y cyd yn ogystal â'r defnydd o gof cyfieithu
- Sicrhau cysondeb o ran trefniadau cyfieithu ac o ran ansawdd y gwaith
- Sicrhau cysondeb o ran cywirdeb, terminoleg, arddull a themau
- Rhoi sefydlogrwydd trwy gysoni'r gwasanaeth cyfieithu a thrwy deilwra'r gwasanaeth i anghenion y sector e.e. trwy flaenoriaethu dogfennau penodol.

Manylion cyswllt

Enw: Nia Llwyd, Rheolwr y Gwasanaethau Iaith

Sefydliad: Gwasanaeth Iaith Gymraeg a Chyfieithu Cyngor Conwy

E-bost: nia.llwyd@conwy.gov.uk